

RHAGARWEINIAD

Mae cynhyrchu planhigion alpaidd yn gyfle i ddefnyddio tir mewn ffordd amgen yng Nghymru. Caiff y planhigion eu gwerthu i'w defnyddio mewn gerddi cerrig a phlannu cyffredinol ac maent yn arbennig o addas i'w tyfu mewn tymheredd isel. Oherwydd y gallu hwn i dyfu ar dymheredd isel, gall cynhyrchwyr gynhyrchu planhigion alpaidd ganol gaeaf hyd yn oed. Mae tymor tyfu planhigion alpaidd yn weddol fyr yn eu cynefinoedd naturiol sy'n egluro pam eu bod yn tyfu'n fuan yn y tymor a hefyd eu twf cyflym. Fel rheol mae planhigion alpaidd yn cael eu gwerthu yn y rhan fwyaf o ganolfannau garddio ac mae yna nifer o gyfanwerthwyr yng ngwledydd Prydain hefyd. Gall y ffaith y gellir eu cynhyrchu yn y cyfnod tawel fod yn fantais ychwanegol i gynhyrchu'r planhigion hyn.

SYSTEMAU CYNHYRCHU

Gellir tyfu planhigion alpaidd o hadau (er enghraifft *Saxifraga* - tormeini) neu trwy luosogi llystyfol (er enghraifft *Gentiana* - crwynllys). Lle bo modd dylid eu cynhyrchu o hadau gan fod y gost yr uned yn is. Fodd bynnag, gellir defnyddio lluosogi llystyfol ar gyfer cyltiffarau uwch eu gwerth (nad ydynt yn dod yn dda o hadau, e.e. *Diascia*). Fel rheol rhoddir hadau neu doriadau mewn hambyrddau sydd yn aml yn cynnwys 100 neu fwy o gelloedd bychain iawn. Y dull arferol yw rhoi'r rhain mewn twnelau plastig bychain o fewn tŷ gwydr neu dwnnel polythen. Fel rheol hefyd defnyddir ceblau cynhesu'r pridd i hwyluso magu gwreiddiau neu egino yn ystod misoedd y gaeaf. Yn ogystal, defnyddir goleuo ychwanegol (er enghraifft, goleuadau sodiwm cryf) yn ystod misoedd olaf a misoedd cyntaf y flwyddyn. Oherwydd bod y planhigion mor fychain nid yw'r twnelau bychain angen fawr o wres ychwanegol os ydynt yn cael eu rhoi mewn tŷ gwydr. Mae'r ceblau cynhesu'r pridd a'r goleuadau ychwanegol yn fwy na digon fel arfer. Y problemau mwyaf gyda phlanhigion alpaidd sy'n cael eu cadw dros y gaeaf yw llwydni, sy'n ffynnu mewn tywydd llaith. Mae defnyddio ceblau cynhesu'r pridd a goleuo yn lleihau'r broblem hon yn sylweddol.



Ffig 1 : Meithrinfa Alpaidd

CHWILIO AM DDEUNYDDIAU LLUOSOGI

Mae cwmnïau hadau yn aml yn darparu hadau planhigion alpaidd. Fel rheol gall y cyflenwyr hynny sy'n gwerthu amrywiaeth eang o hadau blodau ddarparu rhai hadau alpaidd. Mae yna hefyd rai cyflenwyr arbenigol, yn cynnwys diwydiannau cartref, sy'n darparu planhigion bychain. Fel rheol, mae'n rhaid prynu planhigion ar gyfer lluosogi llystyfol (er enghraifft, toriadau). Gellir cael y rhain o feithrinfeydd planhigion cyfanwerthol neu gan froceriaid planhigion cyfanwerthol. Gyda'r olaf gellir prynu planhigion ar gyfradd uned sengl yn ogystal â gallu ychwanegu at yr amrywiaeth pan fo planhigion ar gael. Dylid nodi, fodd bynnag, fod rhai planhigion yn cael eu gwarchod gan Hawliau Bridwyr Planhigion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid talu ffi i berchen yr Hawliau Bridwyr. Dim ond ychydig o blanhigion sy'n dod dan y ddeddfwriaeth hon ac mae digon o blanhigion ar gael i luosogi heb orfod defnyddio planhigion a warchodir gan Hawliau Bridwyr. Gall rhywun fynd i drafferthion trwy luosogi a gwerthu planhigion yn anghyfreithlon. Mae'r cylchgrawn masnachol *Horticulture Week* yn cyhoeddi Arweiniad i Brynwyr yn flynyddol lle rhestrir planhigion a deunyddiau eraill. Hwn yw'r cylchgrawn masnachol i gynhyrchwyr planhigion ac mae'n ddefnyddiol ei gael yn wythnosol.

CHWILIO AM DDEUNYDD TYFU

Fel rheol mae cynhyrchwyr yn defnyddio cyflenwyr garddwriaethol cyfanwerthol (a geir yn y Tudalennau Melyn fel rheol). Gellir prynu deunydd tyfu naill ai wedi ei gymysgu ymlaen llaw ar gyfer alpinau, neu ei baratoi eich hun gan ddefnyddio cynhwysion sylfaenol. Ychydig o ddeunydd sydd ei angen ar gyfer y planhigion bychain, felly mae'n talu'n well yn aml i brynu deunydd wedi ei gymysgu'n barod. Dylai deunydd tyfu ar gyfer planhigion alpaidd ddraenio'n rhwydd ac mae'n arferol cynnwys tywod neu raeau, er nad yw hyn yn hanfodol bob amser.

Mae rhai rhywogaethau'n ffynnu gyda gronynnau organaidd mawr, a defnyddir rhisgl coed yn aml ar gyfer planhigion megis crwynllys.

DEWIS STOC

Mae Tabl 1 yn rhoi enghreifftiau o'r planhigion alpaidd mwyaf cyffredin a dyfir er bod miloedd llawer o blanhigion alpaidd i'w cael. Planhigion sy'n tyfu mewn mannau uchel yw'r rhain fel rheol ac mae'r graig o danynt yn debygol o ollwng elfennau i'r pridd sy'n penderfynu amodau tyfu. Felly, nid oes unrhyw norm y gall planhigion alpaidd dyfu mewn amodau alcalinaidd lle ceir calchfaen neu mewn amodau asidaidd lle ceir llawer o weddillion organig, gweddillion planhigion neu law asid. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o bell ffordd ond mae'n rhoi ychydig enghreifftiau o bob grŵp eang o blanhigion alpaidd.

Tabl 1. Enghreifftiau o blanhigion alpaidd cyffredin yn ôl grŵp planhigion

Grŵp	Enghreifftiau
Alpinau blodau o hadau	<i>Saxifraga, Armeria, Dianthus</i>
Alpinau blodau o luosogi llystyfol	<i>Gentiana, Sedum, Diascia</i>
Alpinau lled-brennaidd o doriadau	<i>Helianthemum</i>
Planhigion alpaidd sy'n llwyni bychain	<i>Ledum, Arctostaphylos, Vaccinium</i>
Coed alpaidd bychain	<i>Juniperus, Betula, Salix</i>

Sylwer bod gan lawer o'r *genera* hyn aelodau nad ydynt yn rhai alpaidd ond gellir adnabod yr amrywiadau alpaidd trwy eu twf cryno.

ENILLION ARIANNOL

Yn aml mae planhigion alpaidd yn cael eu tyfu mewn potiau 9-12cm o ddiamedr. Mae'r prisiau fesul uned yn debyg i rai grugiau wedi eu llusoi 1.5. Gellir gweld beth yw prisiau cyfredol grugiau o'r rhan fwyaf o fannau gwerthu planhigion. Mae'r rhan fwyaf o fannau'n eu prisio'n unigol neu yn ôl nifer y planhigion a brynir. Fel rheol brynir nifer o blanhigion gyda'i gilydd gan fod llawer o brynwyr eisiau sefydlu gardd alpaidd, sy'n golygu bod cyfle i werthu nifer dda ohonynt. Mae cost cynhyrchu'n arbennig o isel oherwydd y swm bychan o gompost a ddefnyddir, maint bychan y pot, a'r ffaith bod deunyddiau lluosogi ar gael ar y safle. Y gost fwyaf sylweddol yw gwres a golau ond dim ond ganol gaeaf mae angen hyn. Yn dibynnu ar y system a ddefnyddir, bydd cost deunyddiau, yn cynnwys y planhigion eu hunain, tua 25% o'r pris gwerthu, heb gynnwys costau gorbenion. Gall gorbenion (gwres a golau yn arbennig) ychwanegu 30-50% at y gost hon.

MARCHNATA

Mae planhigion Alpaidd yn addas iawn i'w gwerthu mewn mannau gweddol gyfyng (er enghraifft, y tu allan i siopau twristaidd) yn ogystal ag mewn canolfannau garddio arferol neu wrth giatiaid ffermydd. Oherwydd maint bychan y planhigion hyn, o'u cymharu â stoc arall, mae angen cynnwys digon o ddeunydd marchnata gyda hwy i bwysleisio eu rhagoriaethau. Tyfir y planhigion hyn am eu blodau'n bennaf a phan nad ydynt yn eu blodau mae angen deunydd marchnata da i bwysleisio eu potensial. Mae'n syniad da i werthu casgliadau o blanhigion alpaidd wedi eu cyflwyno'n ddeniadol mewn cynhwysydd cario addas (er enghraifft, casgliad Swisaidd neu gasgliad Cambriaidd).

PLÂU AC AFIECHYDON

Fel rheol tyfir planhigion alpaidd fel amrywiaeth cymysg yn y feithrinfa gan leihau eu tuedd i ddioddef oddi wrth ymosodiad plâu ac afiechydon. Fodd bynnag, pan gânt eu tyfu mewn twnelau polythen gall y gwres a'r lleithder achosi problemau gan bryfetach, e.e. llysluod (*greenfly*), neu afiechyd ffwngaid, e.e. llwydni. Gall awyriad da leihau'r problemau hyn yn aml. Dylid gosod fframweithiau lle ceir llif aer da drwyddynt er mwyn leihau lleithder a thymheredd.

CYNHYRCHU PLANHIGION ALPAIDD YNG NGHYMRU

Gall planhigion alpaidd dyfu yn aml mewn tymheredd cyn ised â 4°C ac ar safleoedd amlwg. Gall gorchudd cymylau, ac amodau'n newid yn gyson, effeithio ar y safleoedd hyn hefyd. O gael awyriad rhesymol, mae rhagolygon da i dyfu planhigion alpaidd mewn llawer rhan o Gymru.